**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Ionawr 25ain 2016 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley (cadeirydd), Margaret Bowe, Rob Parkes (cyrhaeddodd 6.50pm), Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Colin Hughes, Brian Davies, Roy Tickle, Gaynor Wood-Tickle, Catherine Jones, a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Philip Stevens, Mark Young, Colin L Hughes

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**155. Cyflwyniad gan Emily Reddy ar Fenter Sgiliau Cymunedol Cefn Gwlad.** Dywedodd clerc y dref, yn anffodus, oherwydd amgylchiadau anrhagweledig ac anorfod ni fyddai'r cyflwyniad yn cymryd lle a chytunwyd i ail restru'r cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y cyngor ar Chwefror 22ain 2016.

**156. Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**157. Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau dilynol:

(1) Cyng Gaynor Morgan Rees - eitem agenda 19 - Amgueddfa Dinbych - personol.
(2) Cyng Medwyn Williams - eitem agenda 19 - Amgueddfa Dinbych - personol
(3) Cyng Colin Hughes - holl faterion oedd yn berthnasol a Chyngor Sir Ddinbych.
(4) Cyng Raymond Bartley - holl faterion oedd yn berthnasol a Chyngor Sir Ddinbych.

**158. Derbyniwyd a chymeradwywyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Ragfyr 21ain 2015 a Chofnodion Cyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 11eg 2016.**

**159. Materion yn codi:** 21.12.15 Cofnod 141(5) - digwyddiad Ymgysylltu Llywodraeth Cymru 4.2.16. Dywedodd y Cyng Colin Hughes nad oedd bellach yn medru mynychu a gofynnodd am wirfoddolwr i gymryd ei le. Yn anffodus negyddol fu'r ymateb.

**160. Adroddiad y Maer.** Dywedodd y Maer y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y cyngor llawn ym mis Chwefror.

**161. Llythyrau a Hysbysiadau:** 1. Cytunwyd i nodi tair eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) E-bost oddi wrth Mrs Doris Roberts ynglŷn â chyfarfod blynyddol Apêl Cancr Gogledd Cymru 19.2.16. Y Maer a'r Cyng Roy Tickle a Gaynor Wood-Tickle yn mynychu.
(2) E-bost yn diolch oddi wrth Sion Goldsmith CSDd ynglŷn â Neuadd y Dref Dinbych. Ychwanegodd clerc y dref fod Cadw wedi rhoddi caniatâd cynllunio i'r drws diogelwch. Hefyd, ychwanegodd y cadeirydd fod goleuadau newydd wedi eu gosod uwchben y llwyfan.
(3) Deil a Theithio - llythyr yn diolch ac yn gwneud cais am i logo'r cyngor tref gael ei ddefnyddio ar y bws mini newydd yn dangos fod y cyngor wedi noddi'r cerbyd. Caniatawyd y cais.
(4) Ymateb e-bost oddi wrth CSDd ynglŷn ag ariannu a dderbyniwyd i gario allan gwaith cadwraeth ar bum Siarter Dinbych. Dywedwyd y dylai'r cyngor tref fod wedi eu hysbysebu, o ran cwrteisi, o beth oedd y bwriad. Cytunwyd i yrru llythyr i'r Archifau yn gofyn am wybodaeth o'r math o waith oedd i'w wneud ar y Siarteri.

**162. Cynllunio**: 1. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r cais canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) 1, Lôn Caerau - codi estyniad i breswylfa

**163. Cofnodion Pwyllgorau'r Cyngor.** (1) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Ionawr 18fed 2016.
(2) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Ionawr 19eg 2016.

**164. Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor:** Is bwyllgor Archwiliad Dogfennau. Dywedodd y Cyng Margaret Bowe fod yr is bwyllgor wedi cyfarfod ond, oherwydd maint y ddogfen dan ystyriaeth roedd angen cyfarfod pellach.

**165. Adroddiadau**: (1) <u>Grŵp Coffau y Rhyfel Byd Cyntaf.</u> Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(2) <u>CCTGC</u>. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Raymond Bartley ar gyfarfod diweddar. Disgrifiwyd y cyfarfod fel traed moch. Methodd yr ysgrifennydd a mynychu am fod ei gerbyd wedi torri i lawr. Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr is gadeirydd. Roedd yr ysgrifennydd i ymddeol yn ystod 2017. Roedd y Cyng Bartley yn amheus am ddyfodol y gymdeithas.

(3) <u>CCTGC.</u> Dywedodd y Cyng Roy Tickle ei fod wedi mynychu cinio blynyddol y ddolen gyswllt yng Nghonwy ar y 23ain ynghyd a'r Cyng Raymond Bartley, Gaynor Wood-Tickle a chlerc y dref. Mwynhawyd noson ddymunol dros ben gan bawb a fynychodd.

(4) <u>Ysgol Pendref.</u> Cafwyd adroddiad gan y Cyng Roy Tickle ar gyfarfod diweddar o'r Llywodraethwyr. Roedd yr ysgol yn mynd o nerth i nerth.

(5) <u>Theatr Twm o'r Nant.</u> Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod rhaglen lawn i'r theatr. Trafodwyd yr yswiriant mewn cyfarfod diweddar. Roedd y theatr yn ffynnu.

(6) Dywedodd y Cyng Gaynor Wood-Tickle fod gweithgor Dinbych yn ei flodau wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf. Etholwyd y Cyng Catherine Jones yn gadeirydd y grŵp.

(7) Dywedodd y Cyng Catherine Jones fod problemau ym Maes Hyfryd ynglŷn â dŵr ar yr wyneb. Roedd y problemau yn ymddangos i fod wedi dechrau ar ôl adeiladu'r Hwb. Dangoswyd lluniau yn dangos y problemau. Cytunwyd i yrru'r lluniau i Cynllunio ac Amgylchedd CSDd gyda chopïau i Grŵp Cynefin.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**146. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. <u>Dywedodd y Cyng. Colin Hughes:</u> (1) Bydd cau Stryd Henllan dros dro yn creu anhwylustod. Roedd y Cyng Hughes wedi gofyn am sicrwydd ynglŷn ag arwyddion. (2) Roedd CSDd wedi prynu allan o drefniadau budd-dal tai oddi wrth Lywodraeth Cymru. Roedd y Cyng Hughes yn gweithio gyda swyddogion CSDd i weld beth allai gael ei wneud gyda'r enillion yn yr ardal. Roedd CSDd yn edrych ar wella ardaloedd teyrnas gyhoeddus. Mewn ateb i gwestiwn eglurodd y Cyng Hughes sut roedd y cyfrif cyllid tai yn gweithio.
Mewn ateb i gwestiwn dywedodd y Cyng Hughes y bydd yn gwneud ymholiad ynglŷn ag oedi gwelliannau i Bwll y Grawys.

2. <u>Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Raymond Bartley:</u> (1) Bysiau M & H wedi colli contract taith bws rhif 66 o amgylch Dinbych. Roedd y Cyng Bartley wedi cyflwyno deiseb oddi wrth y defnyddwyr i GSDd. Roedd M & H bellach wedi derbyn colli'r contract oedd i'w gymryd i fyny

gan GHA o ddiwedd Chwefror. Roedd perchennog M & H yn dymuno diolch i bobl Dinbych am eu cefnogaeth dros y 10 blynedd ddiwethaf. Dywedwyd fod nifer yn dibynnu ar y gwasanaeth yma. Cytunwyd i yrru llythyr yn diolch i M & H. (2) Trafodaethau ynglŷn ag Iard yr Orsaf yn dod i ben - roedd yn ymddangos fod yr holl faterion wedi eu datrys. Roedd yr holl unedau wedi eu gosod. Roedd y dyfodol yn edrych yn dda.

**147. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Clerc y Dref - ad-daliad prynu stampiau post<br>(Rhif siec 005802) | - | £55.19 |
| (2) | Catrin Gilkes - gwasanaeth cyfieithu 11.1.16<br>(Rhif siec 005803) | - | £95.00 |
| (3) | Zen Internet - darpariaeth ADSL (Chwefror 2016)<br>(Rhif siec 005804) | - | £18.37 |
| (4) | Ernest Martin - agor a chloi Gardd Dr E P (Ionawr 2016)<br>(Rhif siec 005805) | - | £60.00 |
| (5) | Catalyst Systems - storfa data diogel oddi ar y safle (Rhagfyr 2015)<br>(Rhif siec 005806) | - | £19.27 |
| (6) | Cyng Raymond Bartley - costau teithio (Llandrillo yn Rhos)<br>(Rhif siec 005807) | - | £20.70 |
| 7) | Sodexo - cynnal a chadw Gardd Dr E P (Ionawr 2016)<br>(Rhif siec 005808) | - | £605.88 |

Cyfanswm taliadau: £874.41.

2. Materion ariannol eraill: (1) Dywedodd clerc y dref fod y cyfyngiad gwariant o dan A.137 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/2017 wedi ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru - cynnydd o 6c ar gyfer pob etholwr i £7.42. Bydd gwariant A.137 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/2017 yn £51,390.92 cynnydd o £415.56 dros flwyddyn ariannol 2015/2016

(2) Dywedodd clerc y dref y derbyniwyd cynnig adnewyddiad yswiriant newydd oddi wrth Zurich Municipal am flwyddyn, tair blynedd a pum mlynedd. Cyflwynwyd y cynnig ac fe'i trafodwyd. Dywedodd clerc y dref fod y cwmni yswiriant wedi cadarnhau fod y premiymau a ddefynwyd y llawer rhatach y flwyddyn yma oherwydd cofnod cais y cyngor yn un da a bod y cwmni wedi cael adolygiad sylweddol o'u cyfraddau. Roedd y dyfynbrisiau hefyd yn cynnwys yswiriant adeiladol y cyn Lysdy. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i dderbyn y cynnig pum mlynedd.**

**168. Rheolau Sefydlog y Cyngor.** Cyflwynodd clerc y dref y newidiadau a awgrymir i adrannau 1 a 3 o reolau sefydlog y cyngor yn dilyn y penderfyniadau a wnaed gan y cyngor yn ei gyfarfod ar Ragfyr 21ain 2015 (Cofnod 151). Archwiliwyd pob un o'r awgrymiadau a **Phenderfynwyd cymeradwyo'r newidiadau.**

**169. Sedd Wag y Cyngor - Ward Uchaf.** Dywedodd clerc y dref fod y rhestr enwebiadau wedi ei chyhoeddi. Pleidleisio i gymryd lle ar Chwefror 4ydd 2016.

**170. Sedd Wag y Cyngor - Ward Isaf.** Dywedodd clerc y dref fod angen cyhoeddi hysbyseb i gyfethol ar ôl Chwefror 4ydd 2016. Cytunwyd i gyhoeddi'r hysbyseb cyhoeddus yn hysbysebu'r sedd wag gyda dyddiad cau i'w benodi ar ôl trafodaethau gyda'r swyddog etholiadol. Ymgeiswyr i ddatgan diddordeb a chyflwyno résumé a neu CV i'r cyngor.

171. **Enwebiad am Swydd 2016/2017:**

1. **Maer:** Cynigwyd gan y Cyng. Roy Tickle, ac eiliwyd gan y Cyng Gaynor Wood-Tickle fod y Cyng. Margaret Bowe yn cael ei henwebu.

2. **Dirprwy Faer:** Cynigwyd gan y Cyng Raymond Bartley ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Hughes fod y Cyng. Roy Tickle yn cael ei enwebu.

172. **Drysau'n Agored yn Ninbych 2016.** Agorodd y Cyng Medwyn Williams y drafodaeth drwy ddweud fod y digwyddiad wedi bod yn un pwysig i'r dref dros nifer o flynyddoedd.
Y flwyddyn ddiwethaf bu nifer o newidiadau pan nad oedd CSDd bellach yn arwain y trefniadau a bu i Gymdeithas Ddinesig Dinbych gymryd yr awenau. Yn anffodus penderfynodd y Gymdeithas Ddinesig nad oedd ganddynt yr adnoddau na'r aelodaeth i barhau. Ffurfiwyd pwyllgor dros dro i drefnu, beth a orffennodd i fyny, fel digwyddiad llwyddiannus. Awgrymodd y Cyng Williams for dau opsiwn ar gael, sef (1) i'r cyngor tref i arwain a threfnu'r digwyddiad neu (2) i ffurfio gweithgor i drefnu'r digwyddiad. Byddai'r ail opsiwn yn galluogi'r grŵp i gyflwyno ceisiadau ariannu. Bu costau digwyddiad 2015 yn llai na'r hyn a rhagwelwyd gan y Gymdeithas Ddinesig.
Diolchodd y cadeirydd i'r Cyng Williams am drefnu'r grŵp yn ystod digwyddiad 2015.
Derbyniwyd sylwadau yn ystod y drafodaeth ddilynol: (1) un hanodd i'w benderfynu - roedd trefnu digwyddiad o'r fath yn cymryd llawer o amser a dylid ffurfio gweithgor oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r cyngor tref. (2) Mae'n debyg fod Ray a Margaret Thomas o'r Gymdeithas Ddinesig wedi dweud y byddai'n dda i grŵp 2015 barhau. (3) Digwyddiad poblogaidd yn y dref.
Cytunodd y Cyng Medwyn Williams y byddai'n barod i gysylltu â gwahanol bersonau a threfnu cyfarfod. Yn y diwedd **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i ofyn i'r Cyng Medwyn Williams i gysylltu â phersonau perthnasol a threfnu gweithgor.**

173. **Amgueddfa Dinbych.** Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth y Cyng Gwyneth Kensler ynglŷn â newid les adeilad y cyn Lysdy er mwyn i hen dŷ'r gofalwr gael ei adfer fel annedd. Cafwyd cyngor gan gyfreithiwr y cyngor Mr Gwyn Lloyd Jones - cyfeiriodd clerc y dref at y cyngor. Yn ystod y drafodaeth ddilynol gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â chostau adnewyddu'r tŷ - mewn ateb dywedwyd nad oedd ffigwr, fel y cyfryw, wedi ei drafod ond roedd amcangyfrif y byddai oddeutu £20,000 i £30,000. Hefyd cadarnhawyd y byddai'r amgueddfa yn gyfrifol am gynnal y tŷ a byddai unrhyw drefniadau gosod yn cael eu trin gan asiantaeth gosod. Hefyd dywedwyd y byddai bosib defnyddio'r tŷ, mewn amser, fel llety i ofalwr. Byddai'r amgueddfa yn cymryd cyfrifoldeb cyflawn am y tŷ. Yn y diwedd **Penderfynwyd cytuno mewn egwyddor i newid y les.** Pleidleisiodd saith o blaid gydag un bleidlais yn cael ei hatal. Ni phleidleisiodd y Cyng Gaynor Morgan Rees na'r Cyng Medwyn Williams am eu bod wedi datgan diddordeb personol.

Yn y man yma symudodd y cyfarfod i Ran 2

Yn dilyn cwblhau'r busnes o dan Ran 2 ac am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.47 o'r gloch.

Arwyddwyd:........................................................ (cadeirydd)

Dyddiad:........................